**Cynhyrchwyd ar ran AQA, City & Guilds, CCEA, OCR, Pearson a CBAC**

# Hysbysiad i ganolfannau:
# Y bobl sy'n bresennol yn yr ystafell arholiadau

Hoffai cyrff dyfarnu'r CGC ddarparu mwy o arweiniad ac eglurhad am rôl staff canolfannau, ac eithrio swyddogion arholiadau a goruchwylwyr, yn yr ystafell arholiadau.

Mae adran 17*,* cyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau* yn egluro pwy all fod yn bresennol yn yr ystafell arholi.

**Mae'n ddyletswydd ar bennaeth y ganolfan i gynnal gonestrwydd yr arholiad ac i sicrhau bod goruchwylwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant llawn yn eu lle ar gyfer arholiadau a phrofion ar-sgrin.**

Rhaid i oruchwylwyr fod wedi derbyn hyfforddiant i ymgymryd â'u dyletswyddau (gweler adran 12 cyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*).

## Rheolau sy'n ymwneud â staff y ganolfan ar wahân i swyddogion arholiadau a goruchwylwyr

Gall uwch aelodau o staff y ganolfan, sydd wedi'u cymeradwyo gan bennaeth y ganolfan, ac sydd heb addysgu'r pwnc sy'n cael ei arholi, fod yn bresennol ar ddechrau'r arholiad(au). Wrth fynd i mewn i ystafell arholiadau, rhaid i uwch aelodau o staff y ganolfan ddweud wrth yr uwch oruchwyliwr a/neu'r swyddog arholiadau pwy ydynt a pham maen nhw yno.

Mae gan uwch aelodau o staff y ganolfan rôl glir iawn. Yn bennaf:

- cynorthwyo â'r broses o adnabod ymgeiswyr;
- ymdrin ag unrhyw faterion disgyblu;
- gwirio bod yr ymgeiswyr wedi derbyn papurau y cwestiynau cywir i'r diwrnod, dyddiad, amser, pwnc, uned/cydran a'r haen gofrestru os yn briodol;
- gwirio bod gan yr ymgeiswyr yr offer a'r deunyddiau priodol ar gyfer yr arholiad
- dechrau'r arholiad.

Ni all aelodau o staff canolfan, o dan unrhyw amgylchiadau:

- fod yn bresennol ar ddechrau'r arholiad ac yna eistedd a darllen papur cwestiynau'r arholiad cyn gadael yr ystafell arholiadau;
- mynd i mewn i'r ystafell arholiadau, gan fwriadu edrych ar bapur cwestiynau'r arholiad;
- cael gweld papur cwestiynau'r arholiad oni bai bod naill ai'r swyddog arholiadau neu oruchwyliwr yn gwneud cais pendant iddo wneud hynny. Er enghraifft, nodwyd bod gwall argraffu posibl wedi digwydd ac, yn absenoldeb hysbysiad am gywiriad, bod angen i'r swyddog arholiadau gael gwirio hyn gan yr athro pwnc perthnasol cyn uwchgyfeirio'r achos i'r corff dyfarnu;
- rhoi unrhyw arwydd o'u barn ar bapur cwestiynau i'r ymgeiswyr, naill ai ar lafar neu fel arall, os bu cais iddynt archwilio'r cynnwys;

- cyfathrebu â'r ymgeiswyr, ac eithrio mewn profion Celf wedi'u hamseru ac arholiadau Ymarferol Gwyddoniaeth TAG UG/U2 CCEA a CBAC sydd ar yr amserlen, neu wrth gynnal disgyblaeth yn yr ystafell arholi. Mae'r cyfyngiad hwn yn berthnasol hefyd i hyfforddi ymgeiswyr, atgoffa ymgeiswyr pa ran(nau) o’r papur cwestiynau i’w hateb neu pa gwestiynau y dylent eu hateb;
- mynd i mewn i'r ystafell arholiadau a mynd at ymgeiswyr, naill ai i'w hannog i roi cynnig ar yr arholiad neu i gefnogi ac annog yn gyffredinol;
- mynd i mewn i'r ystafell arholiadau a darllen sgriptiau ymgeiswyr.

**Gellir cynnig cefnogaeth ac anogaeth ar unrhyw adeg tan y bydd yr ymgeiswyr yn mynd i mewn i'r ystafell arholi. O'r eiliad honno ymlaen maen nhw o dan amodau arholiad ffurfiol a rhaid cadw'n gaeth at y protocolau.**

© CGC 2021 – Yn weithredol o 1 Medi 2021